Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Maes-y-Dderwen

**Stryd Tudor**
**Ystradgynlais**
**Abertawe**
**SA9 1AP**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2010**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Gradd** | **Yr hyn mae'r radd yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk


**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg 11-18 sy'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Powys yw Ysgol Maes-y-Dderwen. Mae 540 o ddisgyblion ar y gofrestr o'i gymharu â 610 adeg yr arolygiad diwethaf yn 2004. Mae 81 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu tref fechan Ystradgynlais a'r pentrefi cyfagos, sy'n hen gymunedau glofaol. Mae Ystradgynlais yn ardal ddynodedig prosiect Cymunedau yn Gyntaf. Mae gan ychydig dros 15% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw cyfartaledd yr awdurdod lleol ac islaw cyfartaledd Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd, sef 17.1%.

Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg, gyda dim ond 7% yn datgan eu bod yn siarad Cymraeg gartref, ac mae tua 8% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl. Caiff ychydig dros 1% o'r disgyblion gymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol. Cynrychiolir yr ystod gallu llawn yn yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae gan 22% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, ac mae gan ryw 4% ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae'r rhain uwchlaw cyfartaleddau'r awdurdod lleol a'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Mae newidiadau sylweddol wedi bod ymhlith yr uwch arweinwyr ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r dirprwy bennaeth wedi bod yn ei swydd er Medi 2010. Mae'r ysgol hefyd wedi gwneud toriadau o ran staffio oherwydd diffyg yn y gyllideb.

Yn 2010-2011, y gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Maes-y-Dderwen yw £4,024, sy'n cymharu ag uchafswm o £4,555 ac isafswm o £3,686 ar gyfer ysgolion uwchradd ym Mhowys. Yr ysgol sydd â'r bedwaredd gyllideb uchaf fesul disgybl o'r 13 ysgol uwchradd ym Mhowys.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad cyfredol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad cyfredol**

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae tuedd ar i fyny wedi bod ym mherfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 3;
- mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion;
- mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda yn yr ysgol; ac
- mae llawer o athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig adeiladol i ddisgyblion ar eu gwaith.

Fodd bynnag:

- mae'r canlyniadau yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod yn anghyson dros y blynyddoedd diwethaf, ac maent yn aml islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg ar feincnodau prydau ysgol am ddim; ac
- nid yw'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4, a'r chweched dosbarth, yn cynnig ystod eang o brofiadau galwedigaethol.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- arweinyddiaeth glir, a disgwyliadau uchel y pennaeth;
- dealltwriaeth glir yr uwch dîm arweinyddiaeth o'r meysydd i'w gwella;
- ffocws cadarn arweinwyr y cwricwlwm ar wella deilliannau disgyblion ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu; a
- threfniadau cadarn ar gyfer hunanarfarnu.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Maes-y-Dderwen:

A1 barhau i wella safonau ar draws pob cyfnod allweddol;

A2 gwneud yn siŵr bod pob adran yn defnyddio data perfformiad i lywio’r cynllunio;

A3 sicrhau bod pob athro yn gweddu’r gwaith i anghenion y disgyblion;

A4 datblygu’r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4, a’r chweched dosbarth, trwy ymestyn cyfleoedd galwedigaethol;

A5 cynyddu’r defnydd o Gymraeg achlysurol; a

A6 pharhau i weithio’n agos â’r awdurdod lleol i leihau’r diffyg yn y gyllideb.

### Beth sy’n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd cynnydd o ran mynd i’r afael â’r argymhellion yn cael ei fonitro gan yr awdurdod lleol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn 2010, mae canlyniadau cyffredinol yr ysgol, o'u cymharu â'r cyfartaleddau cenedlaethol a theuluol, yn well yng nghyfnod allweddol 3 nag y maent yng nghyfnod allweddol 4. Er bod patrwm o welliant wedi bod yng nghyfnod allweddol 3 dros y tair blynedd diwethaf, mae'r canlyniadau yng nghyfnod allweddol 4 wedi amrywio.

Yn 2010, mae canlyniadau yn y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 yn golygu bod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg yn ôl meincnodau prydau ysgol am ddim, er bod y canlyniadau wedi bod islaw cyfartaleddau'r teulu o ysgolion a chyfartaleddau Cymru dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2010, mae disgyblion yn perfformio'n dda mewn Cymraeg, gwyddoniaeth a mathemateg o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae canlyniadau mewn Saesneg wedi gwella ac wedi bod yn debyg i'r cyfartaledd teuluol am y ddwy flynedd ddiwethaf. Ar lefel 6 ac yn uwch, mae disgyblion yn perfformio uwchlaw'r cyfartaleddau teuluol a chenedlaethol ym mhob un o'r tri phwnc craidd. Mae cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol yn 2010 yn unol â'r disgwyl, ar ôl bod ychydig islaw'r disgwyliadau ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol.

Yng nghyfnod allweddol 4 yn 2010, mae trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Yn 2009, roedd perfformiad yn llawer gwell na'r cyfartaledd, ond roedd y perfformiad yn 2008 yn debyg i'r perfformiad ar gyfer 2010. Adlewyrchir y patrwm hwn hefyd yn nhrothwy lefel 2, y dangosydd pwnc craidd a'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach. Mae perfformiad yn 2010 mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn y chwarter isaf o'r perfformiad ar gyfer ysgolion tebyg yn ôl meincnodau prydau ysgol am ddim ac ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau mewn mathemateg uwchlaw'r canlyniadau cyfartalog ar gyfer ysgolion tebyg. Dros y tair blynedd diwethaf, ni adawodd yr un disgybl yr ysgol heb gymhwyster, sy'n well na'r cyfartaledd teuluol. Mae cynnydd disgyblion o'r cyfnodau allweddol blaenorol yn unol â'r disgwyl, ar y cyfan.

Yn y chweched dosbarth, roedd trothwy lefel 3 a'r sgôr pwyntiau ehangach ar gyfer 2009 islaw cyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae canlyniadau dros dro 2010 yn dangos y gwnaeth pob myfyriwr 17 oed gyflawni trothwy lefel 3, ac mae hyn uwchlaw cyfartaledd Cymru. Mae sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach yr ysgol wedi gwella er 2009 ond mae'n parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru.

Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 3 wedi cau dros y tair blynedd diwethaf. Er bod y gwahaniaeth yn fach iawn mewn mathemateg a gwyddoniaeth, mae merched yn perfformio gryn dipyn yn well na bechgyn mewn Saesneg ac mae'r gwahaniaeth yn fwy na'r cyfartaleddau teuluol a chyfartaleddau Cymru. Yng nghyfnod allweddol 4, mae merched yn perfformio gryn dipyn yn well na bechgyn yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r disgyblion sydd â hawl i gael

prydau ysgol am ddim wedi perfformio'n dda. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud y cynnydd disgwyliedig.

Ar ddiwedd 2009-2010, parhaodd bron pob un o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 mewn addysg amser llawn trwy aros ymlaen yn y chweched dosbarth, neu drwy gofrestru ar gyrsiau addysg bellach. Mae hyn yn well na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Nid oes unrhyw ymadawyr ysgol o Flwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, o'i gymharu â chanran Cymru, sef 5.7% a chanran yr awdurdod lleol, sef 2.1%. Aeth dros 70% o ddisgyblion ymlaen i addysg uwch ar ôl y chweched dosbarth.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi. Maent yn dangos y medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth berthnasol sy'n galluogi iddynt adeiladu ar eu dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn trosglwyddo ac yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn dda i wella eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Maent yn gwrando'n dda ac yn darllen gyda dealltwriaeth. Maent hefyd yn ysgrifennu gyda chywirdeb technegol ac mae ganddynt ddealltwriaeth o ddiben a chynulleidfa. Wrth iddynt gyfrannu ar lafar, mae'r disgyblion yn gwneud defnydd da o'r eirfa dechnegol sy'n berthnasol i'r pwnc. Mae disgyblion sydd ag anghenion medrau sylfaenol pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, yn gwneud cynnydd da.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyflawniad disgyblion mewn Cymraeg ail iaith yn dda o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, ar gyfer y nifer fach o ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf, mae eu cyflawniad wedi bod yn y chwarter isaf am y tair blynedd diwethaf. Yng nghyfnod allweddol 4, mae bron pob un o'r disgyblion yn dilyn y cwrs llawn Cymraeg ail iaith mewn TGAU, ac mae eu cyflawniadau yn dda.

**Lles: Da**

Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda yn yr ysgol. Maent yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n gyflym ac yn effeithiol â materion, gan gynnwys y nifer fach o faterion sy'n ymwneud â bwlio. Mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o fyw'n iach a bwyta'n iach. Mae'r rhaglen gweithgareddau corfforol '5x60' yn cynnig ystod dda o weithgareddau yn ystod amser cinio ac ar ôl yr ysgol. Mae nifer dda o ddisgyblion yn mynychu'r rhain.

Mae disgyblion yn cyfrannu'n dda at lawer o agweddau ar fywyd yr ysgol. Mae Cyngor yr Ysgol yn helpu datblygu polisïau'r ysgol, mae'n cyfrannu at y broses o benodi uwch aelodau o staff a chaiff aelodau eu cynrychioli ar gorff llywodraethol yr ysgol. Mae disgyblion yn cyfranogi'n dda mewn gwaith elusennol a chymunedol.

Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gânt i gyfleu eu safbwyntiau ar faterion sy'n berthnasol i'r ysgol. Maent yn aml yn cyfleu'r safbwyntiau hyn trwy holiaduron disgyblion a Chyngor yr Ysgol. Mae disgyblion hefyd yn ymateb yn dda i gyfleoedd i gael dweud eu dweud ynglŷn â beth a sut maent yn dysgu.

Caiff disgyblion eu cymell i wneud yn dda ac maent yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth. Maent yn dangos balchder yn eu gwaith ac yn mwynhau eu gwersi. Mae gan y disgyblion fedrau da wrth weithio gyda'i gilydd a datrys problemau.

Mae gwelliant sylweddol wedi bod mewn presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf ac mae'r ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg.  Mae'r prydlondeb ar gyfer gwersi yn dda.

Mae ymddygiad yn dda ac mae disgyblion yn dangos parch a gofal am eraill.  Mae'r disgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda o gwmpas yr ysgol.  Un disgybl yn unig sydd wedi cael ei wahardd yn barhaol er 2005.  Mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol yn cymharu'n ffafriol â ffigurau cenedlaethol.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Digonol**

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang a phriodol o gyfleoedd dysgu ar draws y cyfnodau allweddol.  Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r ddarpariaeth o ran profiad galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.  Mae gofynion newydd y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 3 wedi cael eu rhoi ar waith yn gadarn, ac mae'r trefniadau trosglwyddo yn sicrhau bod y cwricwlwm yn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol y disgyblion o'u hysgolion cynradd.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r cwricwlwm wedi cael ei ehangu'n gyflym i fodloni Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) yn llawn trwy gynnig ystod ehangach o gyrsiau, gan gynnwys y cyrsiau yn sgil cydweithio â darparwyr eraill.  Yn y chweched dosbarth, ystod gymharol gyfyng o gyrsiau a gynigir, yn enwedig llwybrau galwedigaethol.  Mae'r ysgol yn cynnig llawer o gyfleoedd allgyrsiol i ddisgyblion gyfoethogi eu profiadau.

Mae'r ffordd y caiff medrau eu cyflwyno yn anghyson ar draws y cyfnodau allweddol.  Yng nghyfnod allweddol 3, mae ystod addas o strategaethau i ddatblygu parhad a dilyniant o ran datblygu medrau, gan gynnwys medrau sylfaenol.  Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16, mae athrawon yn nodi'r medrau sy'n ategu'r dysgu, ond mae anghysondeb yn y ffordd y cânt eu monitro, ac yn eu dilyniant.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'r dimensiwn Cymreig trwy'r cwricwlwm ac amrywiaeth o ddigwyddiadau ysgol yn effeithiol.  Nodwedd dda o ddarpariaeth yr ysgol yw'r ffaith bod y rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith yn cael eu cofrestru ar gyfer y cwrs llawn mewn TGAU.  Mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg.  Fodd bynnag, nid yw'r agweddau hyn wedi cael eu datblygu digon.

Mae'r ysgol yn cynnig rhai cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.  Mae eco-bwyllgor yr ysgol yn codi ymwybyddiaeth am faterion cynaliadwyedd, ac mae'r ysgol yn helpu disgyblion i ddeall am ddinasyddiaeth fyd-eang trwy ddatblygu eu cysylltiadau gyda'r gymuned leol a lleoedd mewn rhannau eraill o'r byd.  Fodd bynnag, ni chaiff y gwaith ei gydlynu'n dda ac ni roddir digon o sylw i ddinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cynllunio eu gwersi'n dda i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd yn effeithiol trwy gwricwlwm cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn sefydlu perthynas dda gyda disgyblion, sy'n meithrin dysgu. Mae'r gwersi wedi'u strwythuro'n dda, a defnyddir ystod dda o adnoddau dysgu i ennyn diddordeb y disgyblion a datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol. Mae athrawon yn mynd i'r afael yn briodol â materion iechyd a diogelwch mewn gwersi ymarferol fel dylunio a thechnoleg a gwyddoniaeth. Defnyddir staff cymorth dysgu yn effeithiol mewn gwersi i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mewn rhai gwersi, nid yw athrawon yn caniatáu digon o amser i adolygu amcanion y wers a phennu graddau dysgu'r disgyblion. Hefyd, mewn rhai gwersi, nid yw'r gwaith yn gweddu'n dda i wahanol anghenion y disgyblion ac nid yw'r disgwyliadau mor uchel ag y dylent fod.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig adeiladol i ddisgyblion ar eu gwaith. Mae'r sylwadau hyn yn rhoi arweiniad i ddisgyblion ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'r gwaith. Mae llawer o athrawon yn gofyn cwestiynau agored yn rheolaidd sy'n annog disgyblion i feddwl yn ofalus cyn iddynt gynnig eu hatebion i'r cwestiynau.

Mae system gyffredin ar waith ar gyfer pob adran i olrhain a chofnodi cynnydd disgyblion ar draws pob cyfnod allweddol. Mae pob adran yn dadansoddi canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac arholiadau yn drylwyr, ond mewn rhai adrannau, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n ddigon da i wella safonau. Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am gyflawniad a chynnydd eu plant trwy'r adroddiadau tymhorol a blynyddol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu lefel uchel o ofal. Mae ganddi drefniadau da iawn ar gyfer sicrhau bod disgyblion Blwyddyn 7 yn ymgynefino'n dda. Mae'r ysgol yn nodi anghenion disgyblion pan fyddant yn ymuno ac mae'n sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni. Mae'r cymorth wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau o ddisgyblion ar draws yr ysgol wedi arwain at welliannau sylweddol mewn deilliannau ac agweddau at ddysgu.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu disgyblion ac mae'n ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i bryderon ynglŷn â lles disgyblion. Mae darpariaeth dda iawn ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol ac fe gaiff effaith gadarnhaol ar iechyd a lles y disgyblion.

Caiff disgyblion, rhieni a gofalwyr gyngor ac arweiniad manwl ar y cymorth a'r arweiniad sydd ar gael yn yr ysgol, a sut gellir manteisio arno. Fodd bynnag, nid yw rhieni a disgyblion yn cael eu hysbysu cystal ag y dylent am ddewisiadau ôl-14. Mae darpariaeth addas ar gyfer cymorth anogwyr dysgu ar gyfer disgyblion 14 i 19 oed.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol wedi datblygu polisi llwyddiannus gyda gweithdrefnau effeithiol ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da. Mae hyn yn cynnwys ystod eang o wobrau a chosbau.

Mae ymglymiad yr asiantaethau allanol mewn darpariaeth bersonol ac iechyd yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i sicrhau bod anghenion y disgyblion yn cael eu bodloni. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth da ac maent yn cymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r broses o osod targedau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac adolygu cynnydd yn cael ei hymgorffori'n llawn ym mhob adran. Mae'r tîm cymwys o gynorthwywyr cymorth dysgu yn rhoi cymorth da iawn i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff rhieni eu hysbysu'n dda ac maent yn cymryd rhan yn llawn yn addysg eu plant.

**Amgylchedd dysgu: Da**

Trwy'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol, mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth gymdeithasol yn effeithiol. Mae'r polisi cyfle cyfartal ac amrywiaeth wedi cael ei ddiweddaru i sicrhau bod pob un o'r staff a'r disgyblion yn gwbl ymwybodol o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â hawliau disgyblion ethnig lleiafrifol. Ymdrinnir yn brydlon ac yn briodol â'r ychydig iawn o achosion o fwlio yn yr ysgol.

Mae'r adeiladau newydd diweddar yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol, sy'n cael ei werthfawrogi gan y staff a'r disgyblion. Mae disgyblion wedi cael y cyfle i gyfrannu at gynllunio cam nesaf y rhaglen adeiladu. Mae ystod addas o adnoddau dysgu o ansawdd da hefyd ar gael i ddisgyblion. Caiff tir yr ysgol ei gynnal yn dda a chedwir y toiledau yn lân a thaclus. Caiff y disgyblion gyfle i wneud defnydd da o'r cyfleusterau chwaraeon yn yr ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr yn ffurfio tîm cryf, cydlynus ac effeithiol sydd wedi ymrwymo'n llawn i wella'r ysgol. Mae ganddynt safbwynt gonest a realistig ynglŷn â chryfderau a gwendidau'r ysgol, ac maent wedi amlinellu blaenoriaethau clir ar gyfer gwella. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi gwella ei defnydd o wybodaeth am berfformiad ac mae wedi cyflwyno ffordd fwy penodol o osod targedau ar gyfer timau pwnc a disgyblion unigol. Mae gan uwch reolwyr ddisgwyliadau uchel o staff a disgyblion, ac fe gaiff hyn ei gyfleu yn effeithiol. Mae rolau a chyfrifoldebau ar bob lefel wedi'u diffinio'n glir ac yn cael eu deall yn dda. Mae diben cyffredin a ffocws cadarn ar wella deilliannau disgyblion ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Mae llawer o reolwyr y cwricwlwm yn cyflawni eu rôl yn effeithlon ac maent yn cyfrannu'n dda at wella safonau a darpariaeth. Fodd bynnag, nid yw rhai rheolwyr yn

cael digon o effaith ar safonau a chynnydd disgyblion eto. Mae arweinwyr bugeiliol yn cefnogi disgyblion yn dda ac maent wedi cynyddu eu rôl mewn monitro ac olrhain cyflawniadau a chynnydd disgyblion yn ddiweddar.

Mae trefniadau rheoli perfformiad wedi'u sefydlu'n dda ac yn canolbwyntio'n briodol ar gyflawni blaenoriaethau a chynlluniau'r ysgol. Maent yn helpu mynd i'r afael â thanberfformio ac yn arwain at weithgareddau datblygiad proffesiynol, ynghyd â chynlluniau gwella.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol, ac yn wybodus ynglŷn â gwaith a pherfformiad yr ysgol, ac maent yn cymryd rhan yn weithredol mewn gosod y cyfeiriad strategol. Gwnânt ddefnydd da o'r wybodaeth, gan gynnwys data perfformiad, i gyflawni eu rôl o ran monitro a herio'r ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth lawn i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol sy'n cael lle amlwg mewn polisïau a chynlluniau gwella. Mae wedi ymateb yn dda i flaenoriaethau cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys Llwybrau Dysgu 14-19, gwella llythrennedd a rhifedd a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn a systematig ar gyfer hunanarfarnu sy'n canolbwyntio'n gryf ar atebolrwydd a her. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gywir ac wedi'i seilio'n gadarn ar dystiolaeth, ac mae'n amlinellu darlun clir o gryfderau a gwendidau'r ysgol.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn dadansoddi data a gwybodaeth o ystod dda o ffynonellau yn drylwyr. Gwnânt ddefnydd da o dystiolaeth uniongyrchol o ansawdd yr addysgu a'r dysgu, gan gynnwys adolygiadau allanol gan yr awdurdod lleol a gwasanaethau ymgynghorol, i lywio hunanarfarnu.

Mae gan yr ysgol systemau trylwyr ar gyfer monitro lles disgyblion ac mae'n datblygu prosesau da ar gyfer casglu a dadansoddi safbwyntiau disgyblion. Mae hyn wedi arwain at bresenoldeb gwell, ac at drefniadau gwell i sicrhau bod Cyngor yr Ysgol yn gweithredu'n fwy effeithiol o ran cyfrannu at wella'r ysgol.

Mae cynlluniau datblygu wedi'u seilio'n gadarn ar ddeilliannau hunanarfarnu. Maent yn cynnwys meini prawf llwyddiant manwl a thargedau clir a heriol. Mae cysylltiadau systematig yn bodoli rhwng cynlluniau ysgol gyfan a chynlluniau adrannol gyda phob un yn canolbwyntio ar wella'r deilliannau ar gyfer dysgwyr. Mae uwch arweinwyr yn monitro ac yn adolygu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd ac yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw rhai arweinwyr canol yn dadansoddi deilliannau dysgwyr yn ddigon trylwyr i godi safonau yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn weithgar ac yn effeithiol o ran mynd i'r afael â meysydd i'w datblygu. Mae pob un o'r staff yn glir ynglŷn â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae datblygiad proffesiynol yr athrawon, a nodwyd trwy reoli perfformiad, yn cysylltu'n dda â datblygu'r ysgol gyfan. Mae llawer o arweinwyr canol wedi elwa ar hyfforddiant arweinyddiaeth, sydd wedi eu helpu i ddatblygu eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau staff o ran cynllunio strategaethau gwella. Mae llawer o gyfleoedd strwythuredig i athrawon rannu ac archwilio eu gwybodaeth broffesiynol.

Mae ymwybyddiaeth glir ymhlith y staff o'r angen i godi safonau trwy addysgu mwy effeithiol. Mae arsylwadau gwersi gan yr ysgol a'r awdurdod lleol yn dangos bod blaenoriaethu datblygu strategaethau dysgu wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu. Mae'r mentrau hyn, fodd bynnag, eto i effeithio'n llawn ar ddeilliannau disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda iawn gyda'r grwpiau cymunedol a'r asiantaethau, gan ymgymryd yn aml â rôl arwain, lle bo'n briodol. Mae ganddi ran bwysig ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at waith Cymunedau yn Gyntaf. Mae llawer o asiantaethau a grwpiau lleol yn gweld bod yr ysgol yn bartner allweddol a hanfodol yn eu gwaith. Mae'r berthynas waith yn gadarnhaol a chynhyrchiol iawn. Mae ymglymiad yr ysgol ag asiantaethau cymunedol wedi cyfrannu'n sylweddol at wella lles ac ymgysylltiad y disgyblion mewn addysg a hyfforddiant.

Mae gan yr ysgol berthynas dda gyda rhieni. Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am waith yr ysgol ac am gynnydd a chyflawniadau eu plant. Maent yn ei chael yn hawdd mynd at yr ysgol pan fydd angen. Mae llawer o rieni yn mynychu'r cyfarfodydd rhieni am gynnydd disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda iawn gyda'i hysgolion cynradd partner fel rhan o'r trefniadau clwstwr lleol. Mae trefniadau asesu yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 wedi helpu gwella parhad y cwricwlwm ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae gan yr ysgol rôl lawn mewn datblygiadau 14-19 yn ardal yr awdurdod lleol, gan gynnwys rhaglen moderneiddio'r ysgol sy'n ymwneud â darpariaeth ôl-16. Mae'r gweithio hwn mewn partneriaeth wedi helpu cynyddu nifer y dewisiadau yng nghyfnod allweddol 4. Mae trefniadau ffurfiol yn bodoli rhwng yr ysgol a darparwyr eraill yn y sector ôl-16 i fynd i'r afael â'r ddarpariaeth gyfyngedig bresennol ac maent yn bodloni gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) ar gyfer y grŵp oedran hwn.

Mae trefniadau gweithio datblygedig yn bodoli gydag ystod eang o asiantaethau, gan gynnwys gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn dda. Mae systemau da yn bodoli i sicrhau bod cyllid yn cael ei gyfeirio tuag at flaenoriaethau strategol. Mae system gadarn ac eglur ar gyfer dyrannu ac adolygu taliadau'r pen. Mae arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod costau yn cael eu pennu'n effeithlon ar gyfer cynlluniau datblygu a'u bod yn cael eu monitro'n ofalus i sicrhau bod gwariant yn cyd-fynd â chynllunio ariannol yr ysgol. Mae cysylltiadau clir rhwng cyllideb yr ysgol, ac mae cynlluniau strategol a chynlluniau datblygu a blaenoriaethau'r ysgol yn canolbwyntio'n gryf ar wella deilliannau ar gyfer dysgwyr.

Mae’r ysgol yn lleoli staff yn effeithiol ac yn effeithlon.  Mae’r ysgol wedi ailstrwythuro’r uwch arweinwyr ac arweinwyr canol fel bod y strwythur staffio yn canolbwyntio’n fwy effeithiol ar wella deilliannau disgyblion.  Mae arweinwyr a rheolwyr yn trefnu amser cyfarfodydd yn dda i ganolbwyntio ar flaenoriaethau’r ysgol.

Mae diffyg cyllidebol yr ysgol yn mynd yn llai, a chymeradwywyd hyn gan yr awdurdod lleol.  Mae’n gweithio’n effeithiol gyda’r awdurdod lleol i reoli’r gyllideb yn llwyddiannus.

At ei gilydd, mae’r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.  Mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn ofalus i sicrhau gwelliant.  Caiff y disgyblion ofal da ac fe gânt eu cefnogi yn eu dysgu; mae presenoldeb ac ymddygiad yn dda, ac mae’r ysgol yn cyfrannu’n gadarnhaol at les y disgyblion, ond mae’r safonau yn ddigonol.

Mae cyfranogiad da yn y sector ôl-16, ond mae meintiau’r dosbarthiadau yn rhy fach i fod yn hyfyw.  Nid yw’r chweched dosbarth, felly, yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i holiaduron rhieni**

Derbyniodd Estyn 124 o holiaduron wedi'u llenwi gan rieni/gofalwyr. Mynegodd y mwyafrif helaeth ohonynt safbwyntiau cadarnhaol am yr ysgol. Mae'r ymatebion yn dangos bod disgyblion yn cael eu cefnogi'n dda wrth iddynt ymgynefino yn yr ysgol, ac maent yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r cyfnodau allweddol. Mae bron pob un o'r rhieni yn teimlo bod gan y staff ddisgwyliadau uchel a'u bod yn uniaethu'n dda â'r disgyblion. Maent hefyd yn gwerthfawrogi'r gwaith cartref sy'n cael ei roi. Dywed llawer o'r rhieni eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn, er bod rhai yn anghytuno. Mae bron pob un o'r rhieni yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol os bydd ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon, ac maent yn teimlo bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

**Ymatebion i holiaduron dysgwyr**

Derbyniodd Estyn 132 o ymatebion gan ddisgyblion, wedi'u dewis ar hap ar draws yr ystod oedran. Mae llawer o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, er i 20% o'r disgyblion nodi nad oeddent yn teimlo'n ddiogel. Mae canran debyg o'r disgyblion yn teimlo nad yw'r ysgol yn delio'n dda â materion yn ymwneud â bwlio. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr athrawon yn eu helpu i wneud cynnydd da ac yn delio ag unrhyw broblemau sy'n codi. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn teimlo nad ydynt yn gallu gwneud eu gwaith oherwydd ymddygiad gwael o bryd i'w gilydd. Dywed y rhan fwyaf o'r disgyblion eu bod yn cael eu hannog i ymgymryd â chyfrifoldebau a'u bod yn cael eu paratoi'n dda i symud ymlaen i'w cyfnod dysgu nesaf. Nid oedd lleiafrif (37%) o'r disgyblion ym Mlwyddyn 10 ac 11 yn teimlo eu bod yn cael cyngor da wrth ddewis eu cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ray Owen AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Sarah Lewis AEM | Arolygydd Tîm |
| Meinir Rees AEM | Arolygydd Tîm |
| Julie Ann Price | Arolygydd Lleyg |
| Keith Maher | Arolygydd Cymheiriaid |
| Joe Taffurelli | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad ar gael gan yr ysgol ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost yr ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd pump oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd chwech oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Sector uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cynnwys y grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |